

Cyngor y Gweithlu Addysg

Canllaw ymarfer da: Proffesiynoldeb ar waith

Mai 2021

Contents

Cyflwyniad	3
Y Cod.....	3
Beth yw proffesiynoldeb mewn ymarfer?	5
Canlyniadau	7
Sut gallwn ni eich cefnogi chi ymhellach	8

Cyflwyniad

Proffesiynoldeb yw'r ymddygiad sy'n nodweddu neu'n nodi proffesiwn neu berson proffesiynol. Mae'n disgrifio'r rhinweddau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r ymddygiadau y mae disgwyl i chi eu harddangos, nid dim ond mewn dysgu ac addysgu, ond mewn cymdeithas yn gyffredinol.

Pan ddaethoch chi'n ymarferwr, fe ymrwymoch i fod yn broffesiynol yn eich holl weithredoedd a, thrwy wneud hynny, cyfrannu at gynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn eich proffesiwn.

Nod y canllaw hwn yw helpu i godi'ch ymwybyddiaeth a'ch dealltwriaeth o feysydd allweddol sy'n gysylltiedig â phroffesiynoldeb yn eich bywyd personol a phroffesiynol. Ni all fynd i'r afael â'r holl amgylchiadau posibl ac nid oes bwriad iddo fod yn rhestr derfynol o ymddygiadau, ond fe'i darperir yn hytrach i amlygu pwysigrwydd eich proffesiynoldeb fel gweithiwr proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Y Cod

Mae holl gofrestreion Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn destun y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol, sy'n cyflwyno egwyddorion allweddol ymddygiad ac ymarfer da i gofrestreion. Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r Cod, sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan, sef www.cga.cymru.

Mae'r egwyddorion a'r disgwyliadau yn y Cod i gyd yn berthnasol i broffesiynoldeb mewn ymarfer. Yn y canllaw hwn, fodd bynnag, rydym yn amlygu'r canlynol yn arbennig:

Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol

Mae cofrestreion:

- 1.1** yn cydnabod eu cyfrifoldeb personol fel delfryd ymddwyn a pherson cyhoeddus, er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg, yn y gweithle a thu allan iddo;
- 1.2** yn cynnal perthynas â dysgwyr yn broffesiynol;
- 1.3** ymgysylltu â dysgwyr;
- 1.4** yn meddu ar ddyletswydd gofal am ddiogelwch dysgwyr a'u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol;
- 1.5** yn ystyriol o'u cyfrifoldeb proffesiynol am iechyd, diogelwch a llesiant cydweithwyr a nhw'u hunain;
- 1.6** yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Unplygrwydd Proffesiynol

Mae cofrestreion:

- 2.1 yn atebol am eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol;
- 2.2 yn ymddwyn yn onest, a chydag unplygrwydd.

Cydweithio

Mae cofrestreion:

- 3.1 yn parchu, yn cynorthwyo ac yn cydweithio gyda chydweithwyr, dysgwyr ac eraill i gyflawni'r deilliannau dysgu gorau;
- 3.2 rhannu profiad a gwybodaeth i helpu eu hunain ac ymarferwyr eraill i ddatblygu a chynnal ymarfer gorau;
- 3.4 yn cyfathrebu mewn modd priodol ac effeithiol gyda phob un sy'n gysylltiedig ag addysg dysgwyr.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol

Mae cofrestreion:

- 4.1 yn gwybod, yn defnyddio ac yn cymryd cyfrifoldeb dros safonau proffesiynol perthnasol yn eu proffesiwn arbennig drwy gydol eu gyrfa;
- 4.4 lle y bo angen, yn ceisio cymorth, cyngor ac arweiniad ac yn agored i adborth, gan ymateb iddo mewn modd cadarnhaol ac adeiladol.

Dysgu Proffesiynol

Mae cofrestreion:

- 5.1 yn dangos ymrwymiad cyffredin i'w dysgu proffesiynol parhaus drwy fyfyrion am eu hymarfer a'i werthuso, gan sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol yn gyfoes a chymryd camau i wella'u hymarfer, lle bo angen.

Beth yw proffesiynoldeb mewn ymarfer?

Proffesiynoldeb yw cael barn gadarn, hyder wrth wneud penderfyniadau goleuedig a chymryd cyfrifoldeb dros eich gweithredoedd fel gweithiwr proffesiynol, weithiau mewn amgylchiadau heriol.

Chi sy'n gyfrifol am gynnal eich ymddygiad a'ch ymarfer proffesiynol eich hun. Mae myfyrio a hunanarfarnu parhaus yn ganolog i gynnal eich proffesiynoldeb mewn ymarfer.

Mae llawer o nodweddion pwysig sy'n cyfrannu at broffesiynoldeb mewn ymarfer. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, sy'n gallu perthyn i'w gilydd.

Mae **gonestrwydd ac unplygrwydd** yn golygu:

- Cadw at eich gair fel gweithiwr proffesiynol; gellir llwyr ymddiried ynddoch.
- Peidio â pheryglu'ch gwerthoedd.
- Gwneud y peth cywir, hyd yn oed os yw'n golygu gwneud rhywbeth anoddach; bod yn atebol.
- Bod yn ddiymhongar – cyfaddef pan all eich bod wedi gwneud camgymeriad, neu fod angen help arnoch, a bod yn barod i ddysgu gan eraill.
- Cynrychioli eich hunain yn onest ac yn gywir pan rydych chi'n gwneud pethau fel ymgeisio am swyddi neu ryngweithio â'ch rheoleiddiwr.
- Deall bod y Cyhoedd yn ymddiriedaeth llawer ynoch chi fel gweithiwr proffesiynol addysg, a gwybod eu bod, yn gyfnewid, yn disgwyl ichi weithredu gyda lefelau uchel o unplygrwydd yn y gwaith a'r tu allan iddo.

Mae **bod yn ddelfryd ymddwyn** yn golygu:

- Bodloni disgwyliadau trwy ddangos yn glir sut olwg sydd ar broffesiynoldeb mewn ymarfer; arwain trwy esiampl.
- Cael cod moesol a moesegol clir.
- Deall bod yr hyn rydych chi'n ei ddweud ac yn ei wneud yn eich bywyd preifat yn llywio'r ffordd y mae pobl yn meddwl amdanoch chi a'ch proffesiwn.
- Dangos ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Cefnogi cydweithwyr a dysgwyr.
- Dathlu llwyddiant personol a llwyddiant pobl eraill; trin pobl eraill â pharch.
- Cynnig adborth ystyrlon ac adeiladol i eraill.
- Bod yn wylaidd ac yn barod i gyfaddef camgymeriadau.
- Datblygu pobl eraill a chefnogi pobl mewn rolau uwch.
- Adrodd pryderon mewn modd proffesiynol os credwch nad yw pethau'n iawn.
- Bod yn ddeallus ac yn amyneddgar gyda'r rhai sy'n newydd i'ch proffesiwn neu'r rhai sy'n dysgu sgiliau newydd.

Mae **dysgu a datblygu'n barhaus** yn golygu:

- Cael ymrwymiad personol i ddatblygu a gwella'ch sgiliau fel ymarferwr a'r wybodaeth arbenigol y mae ei hangen i lwyddo yn eich rôl.
- Cadw'ch gwybodaeth yn gyfredol, fel y gallwch barhau i gyflwyno'r profiadau dysgu gorau posibl.
- Rhannu a lledaenu ymarfer sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth.
- Eich cyfrifoldeb personol chi yw eich proffesiynoldeb ac ni ddylech:
 - » fyth roi'r gorau i ddysgu;
 - » byth roi'r gorau i fyfyrto;
 - » byth roi'r gorau i geisio gwella.

Mae **bod yn hyderus ac yn gymwys yn eich proffesiynoldeb** yn golygu:

- Mae cyfnodau anodd ym mhob proffesiwn ac adegau pan allai eich hyder ballu. Ar yr adegau hyn, cofiwch eich bod yn rhan o broffesiwn y gellir ymddiried ynddo, sy'n eich cefnogi chi.
- Bod yn ddibynadwy a chyflawni'r hyn y disgwylir ohonoch chi.
- Rheoli disgwyliadau, peidio â gwneud esgusodion a chanolbwyntio ar ddod o hyd i atebion os aiff pethau o le.

Canlyniadau

Mae'r enghreifftiau isod yn adlewyrchu achosion pan fethodd cofrestreion yn sylweddol â dangos proffesiynoldeb mewn ymarfer pan oedd angen, ac roeddent yn destun camau disgyblu CGA o ganlyniad.

Ym mhob achos, torrwyd y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn glir a rhoddwyd amrywiaeth o gosbau disgyblu i'r cofrestreion gan gynnwys, mewn ambell achos, eu hatal rhag ymarfer yn y gweithlu addysg yn y dyfodol.

Fe wnaeth cofrestrai:

- fwlio ac aflonyddu ar gydweithiwr trwy wneud sylwadau rhywiol o flaen cydweithwyr eraill a dysgwyr, a chyfiawnhau mai "dim ond tynnu coes" oedd hynny;
- ymddwyn yn amhroffesiynol tuag at gydweithwyr, gan gynnwys colli ei dymer, gweiddi a rhegi ar staff, a gwneud sylwadau bychanol a rhywiaethol;
- bwlio a chodi ofn ar staff yn gysylltiedig â pherfformiad yr ysgol mewn profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol;
- cyflawni twyll yn gysylltiedig â gwaith dysgwyr a cheisio bwrw'r bai ar gydweithwyr eraill a'u cynnwys yn y twyll;
- methu dilyn cyfarwyddiadau rheolwyr, ceisio camarwain cydweithwyr a darparu gwybodaeth anghywir am ddysgwyr. Hefyd, methodd gymryd rhan mewn cynllunio, cadw cofnodion, cynnydd dysgwyr a bu'n ymddwyn yn anonest o ran gwaith dysgwyr;
- anfon llu o negeseuon testun, galwadau a negeseuon llun personol at ddysgwr, yn cynnwys sylwadau rhywiol ac amhriodol;
- gweithredu'n 'gyfaill mynwesol' i ddysgwr o dan 16 oed, ac wedi i ddibyniaeth emosïynol gael ei sefydlu, dechreuont berthynas rywiol;
- rhannu gwybodaeth bersonol gyda dysgwr a thrafod dysgwyr eraill ynghyd â chydweithwyr tra'n cael perthynas rywiol, yn aml yng nghartref y cofrestrai;
- prynu alcohol i ddysgwyr a chyfnewid nifer fawr o negeseuon amhriodol gyda nhw trwy amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan ddweud wrthynt ddileu'r negeseuon bob amser;
- ymweld â dysgwr a'i rieni yn eu cartref ar sawl achlysur heb unrhyw reswm nac awdurdod dilys. Gwnaed hyn er mwyn ennill eu hymddiriedaeth ac am ei fod yn fodd o ddatblygu perthynas â'r dysgwr;
- cymdeithasu â dysgwyr (yn ystafell wely dysgwr) ac yfed alcohol gyda nhw yn ystod taith addysgol.

Sut gallwn ni eich cefnogi chi ymhellach

Mae CGA yn cynnig cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar briodoldeb i ymarfer. Os hoffech chi neu eich cyflogwr drefnu cyflwyniad yn y gweithle, cysylltwch â gwybodaeth@cga.cymru.

Mae Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA i Gofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a gwybodaeth am waith priodoldeb i ymarfer CGA ar gael ar ein gwefan, www.cga.cymru/codCGA.

Cyfeiriad

Cyngor y Gweithlu Addysg
Llawr 9 Tŷ Eastgate
35-43 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

029 2046 0099



www.cga.cymru



gwybodaeth@cga.cymru



twitter.com/ewc_cga

Os oes angen arnoch unrhyw un o'n cyhoeddiadau ar fformat arall, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Croesawn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg